# Cymunedau Cwtsh Comic Relief
# Dyfarniadau

| Mudiad | Disgrifiad o'r Gweithgaredd | Sir | Dyfarniad grant |
|---|---|---|---|
| ASDES - Cymorth Cyflogaeth Datblygu Sgiliau Awtistiaeth | Bydd ASDES yn ehangu ei grwpiau cymdeithasol â chymorth a'i weithgareddau cymunedol ar gyfer oedolion niwrowahanol o amgylch Abertawe, gan gynyddu capasiti a chyflwyno gweithgareddau newydd wedi'u cyd-ddylunio. Mae'r grwpiau diogel hyn, wedi'u hwyluso a'u cefnogi gan staff profiadol, yn helpu pobl i gysylltu, adfer o ynysigrwydd, ac ail-fagu hyder, yn enwedig y rhai sydd wedi'u hymyleiddio heb gyfleoedd cymdeithasol a chyflogaeth. | Abertawe | £16,840.80 |
| Eglwys Bentecostaidd Caernarfon | Cwtsh Arfon: Bydd Bwyd, Cynhesrwydd a Chymorth yn helpu pobl a theuluoedd sy'n wynebu tlodi bwyd i fagu hyder a chydnerthedd trwy goginio'n rhad, cynllunio prydau bwyd, sesiynau bwyd i'r teulu, gweithgareddau cymdeithasol cynnes, adnoddau ryseitiau, a chysylltiadau â chyngor ar arian, budd-daliadau, dyled, tai a thlodi tanwydd. | Gwynedd | £30,000.00 |
| Ymddiriedolaeth Datblygu Corneli | Bydd Connected Cornelly yn ehangu ein Pantri Cymunedol, yn cefnogi teuluoedd gyda gweithgareddau ymarferol, ac yn datblygu man tyfu bach i gynhyrchu bwyd ffres yn lleol. Mae'r prosiect yn helpu pobl sy'n wynebu costau cynyddol, yn lleihau ynysigrwydd, ac yn creu rhagor o gyfleoedd i deuluoedd a gwirfoddolwyr ddysgu, cysylltu a chymryd rhan. | Pen-y-bont ar Ogwr | £33,504.00 |
| Cwmni Buddiant Cymunedol Create Play | Mae Tribe yn cefnogi pobl ifanc 12+ oed sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol, y mae gwasanaethau yn ymwybodol ohonynt, neu sy'n wynebu risg o droseddu, dibyniaeth ac ymddieithriad hirdymor. Trwy brosiectau awyr agored ymarferol, mentora ac ymgysylltiad â'r gymuned, mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn magu hyder, yn datblygu sgiliau bywyd ac yn darganfod llwybrau mwy diogel, mwy positif ar gyfer y dyfodol mewn amgylchedd cefnogol. | Powys | £33,483.30 |

| Mudiad | Disgrifiad o'r Gweithgaredd | Sir | Dyfarniad grant |
|---|---|---|---|
| Cwmni Pum Plwy Penllyn Cyf | Bydd y prosiect yn darparu gweithgareddau cymunedol, cymorth ymarferol a gwasanaeth Car Cymunedol i drigolion lleol. Ein nod yw gwella iechyd a lles, lleihau unigrwydd, cryfhau cysylltiadau cymunedol a chefnogi pobl sy'n wynebu pwysau costau byw neu sydd angen mwy o gefnogaeth gymdeithasol yn yr ardal wledig. | Gwynedd | £22,512.92 |
| Cwmni Buddiant Cymunedol Dant y Llew | Rhoi cyfle i'r gymuned fanteisio ar fwyd ac eitemau hylendid â chymhorthdal ac am ddim. Arbed arian, gwrthsefyll yr argyfwng costau byw, pontio'r bwlch rhwng yr archfarchnadoedd a'r banciau bwyd, a lleihau gwastraff bwyd, rhannu sgiliau ac ysbrydoliaeth coginio Cefnogi gwirfoddolwyr sydd ag anghenion ychwanegol i ennill sgiliau a magu hyder. | Rhondda Cynon Taf | £18,838.00 |
| Cynghrair Gymunedol F.A.N | Bydd y prosiect hwn yn rhoi hwb i'n dull gweithredu cyfannol o ran cefnogaeth gymunedol, gan wella urddas corfforol, rhyddhad materol a chysylltiad cymdeithasol: bydd toiledau wedi'u hadnewyddu yn dod yn niwtral o ran rhywedd, bydd Llyfrgell Pethau yn cefnogi a gwella prosiectau tlodi, a bydd ein defnyddwyr sy'n ffoaduriaid yn cael cymorth i ymgysylltu â'n cymuned ehangach. | Castell-nedd Port Talbot | £35,000.00 |
| Ffrindiau Ysgol Gymraeg y Fenni | Bydd ein gweledigaeth yn creu amgylchedd dysgu awyr agored cynhwysol yn Ysgol Gymraeg Y Fenni lle mae plant yn tyfu, yn archwilio ac yn ffynnu. Byddwn yn ymgysylltu â theuluoedd trwy Ffrindiau (Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon). Wedi'i halinio â'r Cwricwlwm i Gymru, bydd yn meithrin dysgwyr hyderus, iach a chwilfrydig drwy brofiadau ymarferol sy'n cefnogi llesiant, creadigrwydd, datblygiad corfforol a chyfathrebu. | Sir Fynwy | £24,600.10 |

| Mudiad | Disgrifiad o'r Gweithgaredd | Sir | Dyfarniad grant |
|---|---|---|---|
| Hearts Magic | Mae Tasglu Cymunedol Tredegar yn cefnogi teuluoedd, pobl hŷn ac aelodau o'n cymuned sy'n agored i niwed mewn nifer o ffyrdd. Rydym yn darparu parseli bwyd trwy gydol y flwyddyn, cludiant rhad i apwyntiadau iechyd a siopa wythnosol i'r rhai nad ydynt yn gallu mynd ar eu liwt eu hunain. | Caerffili | £31,300.00 |
| Heol Chware Rol TA Role Play Lane | Byddwn yn cyflwyno 70 sesiwn gymunedol sy'n cefnogi tua 280 o deuluoedd, gan gyfuno chwarae, dysgu cynnar a sgiliau bywyd ymarferol. Mae'r sesiynau'n cynnwys byrbrydau iach, cymorth i rieni, a gweithgareddau cynhwysol, gan gynnwys sesiynau thematig estynedig a mewnbwn creadigol arbenigol, gan helpu i leihau ynysigrwydd, magu hyder, a gwella llesiant. | Rhondda Cynon Taf | £25,000.00 |
| Eglwys Gymunedol y Nasaren, Llai | Rydym yn bwriadu adnewyddu ein hadeilad er mwyn ei wneud yn gwbl hygyrch i ddefnyddwyr sydd â symudedd cyfyngedig neu anghenion ychwanegol eraill - bydd yn cynnwys drysau awtomatig, goleuo sensitif, a gwelliannau eraill i'n gwneud ni'n fan mwy croesawgar a chynhwysol. | Wrecsam | £34,908.00 |
| Maen Alaw | Byddwn yn creu caffi cymunedol croesawgar sy'n cynnig prydau fforddiadwy, cyrsiau am ddim a sesiynau sgiliau ymarferol. Wedi'i reoli gan staff arlwyo a chaffi, bydd y prosiect yn defnyddio bwyd dros ben i leihau gwastraff, cefnogi gwirfoddolwyr a phobl sy'n chwilio am waith, annog cysylltiad cymdeithasol, a dosbarthu prydau bwyd fforddiadwy yn y gymuned leol. | Conwy | £35,000.00 |

| Mudiad | Disgrifiad o'r Gweithgaredd | Sir | Dyfarniad grant |
|---|---|---|---|
| YMCA Castell-nedd | Bydd YMCA Castell-nedd yn cryfhau ei ddarpariaeth pantri cymunedol, banc babanod a nwyddau hanfodol drwy gyflwyno staff penodedig, cynyddu cyflenwadau ac ehangu mynediad. Bydd y prosiect yn cefnogi unigolion a theuluoedd sy'n wynebu pwysau costau byw gyda bwyd, cynhyrchion hylendid a chymorth ymarferol mewn lleoliad cymunedol diogel, croesawgar. | Castell-nedd Port Talbot | £19,060.00 |
| FfEY-Cymru | Bydd FfEY Cymru yn cyflwyno tiwtora wythnosol, mentora un i un a rhaglen genhadon ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 18 oed yn Grangetown a Butetown. Bydd cyn-fyfyrwyr yn cefnogi'r genhedlaeth nesaf trwy addysg ddiwylliannol ymatebol, meithrin hyder, cefnogi llesiant a dathlu cyflawniad. | Caerdydd | £35,000.00 |
| Splice Child and Family Project Ltd | Bydd Splice yn darparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i deuluoedd lleol trwy ein banc babanod, pantri cymunedol, gweithgareddau teuluol, a gardd gymunedol. Bydd y prosiect yn helpu i leihau pwysau ariannol, gwella llesiant, a chreu mannau croesawgar lle y gall teuluoedd gael y cyfle i fanteisio ar gymorth, datblygu cysylltiadau, a theimlo'n rhan o'u cymuned. | Pen-y-bont ar Ogwr | £18,631.08 |
| Gwirfoddolwyr Cymunedol y Sblot | Mae Cwtsh Canteen yn bryd o fwyd cymunedol misol a ddarperir gan elusen Gwirfoddolwyr Cymunedol y Sblot, sy'n gweini bwyd cartref ffres, yn seiliedig ar blanhigion mewn lle cynnes, croesawgar. Yn ogystal â rhannu prydau bwyd, gall gwesteion fwynhau gweithgareddau cymdeithasol gan gynnwys cerddoriaeth fyw, bingo a chwisiau, gan helpu i leihau ynysigrwydd, gwella llesiant a chysylltu pobl â chefnogaeth gymunedol ehangach. | Caerdydd | £15,422.02 |

| Mudiad | Disgrifiad o'r Gweithgaredd | Sir | Dyfarniad grant |
|---|---|---|---|
| Banc Bwyd Taf Elái | Bydd Banc Bwyd Taf Elái yn cryfhau ei ymateb rheng flaen i dlodi drwy gynyddu cyfleoedd i fanteisio ar barseli bwyd, cynhyrchion hylendid a chanolfannau cymorth lleol. Byddwn yn darparu cymorth ar unwaith wrth greu mannau cymunedol diogel sy'n helpu pobl sy'n wynebu caledi i deimlo'u bod yn cael eu cefnogi, eu cysylltu a'u bod yn gallu ymdopi'n well. | Rhondda Cynon Taf | £35,000.00 |
| LIL VIBE | Mae LIL VIBES yn darparu 12 sesiwn dysgu cynnar diddorol ar gyfer plant 5 i 7 oed, gan ganolbwyntio ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol hanfodol. Trwy weithgareddau llawn hwyl, dan arweiniad, mae plant yn dysgu llythrennedd emosiynol, empathi, a hunan-reoleiddio. Rydym yn trawsnewid teimladau cymhleth yn sgiliau hawdd eu trin, gan ddatblygu'r cydnerthedd a'r hyder sydd eu hangen arnynt i feithrin cydberthnasau positif. | Abertawe | £35,000.00 |
| Youth Shedz | Mae Cook, Connect, Contribute yn cefnogi pobl ifanc sydd wedi'u datgysylltu o addysg, y mae tlodi ac ynysigrwydd cymdeithasol wedi effeithio ar lawer ohonynt, trwy goginio, prydau bwyd wedi'u rhannu a gweithgareddau bwyd cymunedol. Mae pobl ifanc yn dysgu sgiliau coginio, cyllidebu a bwyd fforddiadwy iach wrth baratoi prydau bwyd ar gyfer grwpiau difreintiedig, gan fagu hyder, llesiant a chyfraniad cymunedol positif. | Conwy<br>Sir Ddinbych | £31,450.00 |